OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 293 (Cy. 55)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Yr Hen Bont dros Afon Dyfi, Machynlleth, Powys / Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Aros) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Mawrth 2024* |
| *Yn dod i rym* | *8 Mawrth 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Yr Hen Bont dros Afon Dyfi, Machynlleth, Powys / Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Aros) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Mawrth 2024.

---

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

**Gwahardd Cerbydau**

**2.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 5, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**Gwahardd Aros ar unrhyw adeg**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Cyfyngu ar Aros (rhwng 23:00 o'r gloch ac 08:00 o'r gloch)**

**4.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw garafán modur neu garafán a dynnir gan gerbyd modur aros rhwng 23:00 o'r gloch ac 08:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod neu ddiwrnodau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**Esemptiadau**

**5.** Caiff person yrru unrhyw gerbyd neu beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darn o gefnffordd a bennir yn erthygl 2 pan fo angen gwneud hynny ar frys at ddiben symud da byw o ganlyniad i lifogydd neu'r perygl o lifogydd.

**6.** Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

- (a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;
- (b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;
- (c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol—
  - (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
  - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
  - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darn o'r gefnffordd; neu
  - (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darnau o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff

5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebu 2003(**1**);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(f) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol—

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Mawrth 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

## ATODLEN 1
## Gwahardd cerbydau

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd ddosbarthiadol yr A493, ar bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o ffin Powys/Gwynedd, hyd at bwynt 43 o fetrau i'r de o'r hen Bont dros Afon Dyfi yn Sir Powys.

## ATODLEN 2
## Gwahardd aros ar unrhyw adeg

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 43 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 60 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 65 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 141 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 104 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 141 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 168 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 186 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r de cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 43 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 178 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

## ATODLEN 3
## Cyfyngu ar aros ar gyfer carafannau modur neu garafannau a dynnir gan gerbydau modur rhwng 23:00 o'r gloch ac 08:00 o'r gloch

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 80 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 104 o fetrau i'r de o'r ffin honno.

Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 141 o fetrau i'r de o ffin Powys/Gwynedd hyd at bwynt 168 o fetrau i'r de o'r ffin honno.